CYNLLUN CREU LLEOEDD
# ABERGELE
PLACEMAKING PLAN

## Astudiaeth Canol Tref Abergele



## Abergele Town Centre Study

CHRISJONES REGENERATION

CYNLLUN CREU LLEOEDD ABERGELE PLACEMAKING PLAN

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Astudiaeth Canol Tref Abergele
# *Pwrpas ac Amcanion*

# Abergele Town Centre Study
# *Purpose and Objectives*

## Beth yw Cynllun Creu Lleoedd Abergele (CCLlA)?

Mae CCLlA yn gynllun dan arweiniad y gymuned sy'n cael ei baratoi i gyflwyno prosiectau a gwelliannau mae trigolion Abergele am eu gweld. Mae'n darparu'r catalydd i weithio gyda chymunedau lleol ac eraill fydd yn rhan o'r broses datblygu yn y dyfodol a chaiff ei gefnogi gan Gynllun Darparu a Monitro clir.

Yr haf diwethaf cawsom ymateb gwych i'n ymgynghoriad gyda llawer o bobl yn gwneud sylwadau drwy'n gwefan, drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy alw heibio i'n gweld pan wnaethom gynnal digwyddiadau yn y llyfrgell a Tesco.

Ers hynny rydym wedi bod yn brysur yn gweithio ar y syniadau a gyflwynwyd i ni a nodi pa fath o themâu prosiect sydd wedi dod i'r brig fel rhai mwyaf pwysig i drigolion Abergele.

Mae'n amser nawr i ddechrau troi'r syniadau yn brosiectau go iawn i'w cyflwyno, felly mae angen i ni edrych yn fanylach ar y syniadau a phwy sydd angen eu cynnwys i wneud iddynt ddigwydd.

## Beth yw Canolbwynt Astudiaeth Canol y Dref?

Gan adeiladu ar sylwadau drwy'r broses Cynllun Creu Lleoedd mae'r astudiaeth hon yn anelu at ddatblygu Gweledigaeth ac Uwchgynllun strategol ar gyfer canol y dref. Ar yr un pryd bydd yn mabwysiadu agwedd holistig a strategol gan gysylltu â phrosiectau eraill fel Blaendraeth Pensarn, Llyfrgell Abergele a Chanolbwynt Cymunedol, Dylunio a gwelliannau i Flaen Siopau, a dewisiadau priffordd Canol Tref Abergele.

Mae angen hefyd i ganol tref Abergele reoli newid yn y dyfodol wrth i dai a chyflogaeth ychwanegol gael ei leoli yn y dref, gan ystyried anghenion presennol ac anghenion y dyfodol trigolion lleol.

## Amcanion

Mae amcanion yr astudiaeth yn cynnwys:

- **Egluro gweledigaeth ar gyfer sicrhau dyfodol mwy ffyniannus a chynaliadwy ar gyfer canol y dref;**
- **Darparu fframwaith ar gyfer newid tra'n diogelu hynodrwydd lleol Abergele;**
- **Archwilio a gwneud cynigion am welliannau i ffabrig ffisegol canol y dref, gan gynnwys symud a gwelliannau i mannau gwyrdd;**
- **Mynd i'r afael ag unrhyw ganfyddiadau negyddol, a bywiogrwydd a hyfywdra cyffredinol canol y dref;**
- **Ymateb i gyfleoedd datblygu yn y dref a sut mae'r rhain yn berthnasol i ganol y dref;**
- **Darparu tystiolaeth a chynorthwyo gyda cheisiadau yn y dyfodol am gyllid allanol;**
- **Creu fframwaith i annog buddsoddiadau gan y sector breifat ymysg busnesau gan gynnwys eu hyrwyddo;**
- **Cryfhau ffabrig ac asedau'r gymuned leol a gweld sut y gellir atgyfnerthu canol y dref;**
- **Nodi prosiectau allweddol, cyfleoedd a chynnig camau gweithredu ar gyfer y 10 mlynedd nesaf i weithredu fel catalyddion ar gyfer newid cadarnhaol;**
- **Penderfynu sut y gall canol y dref elwa ar gyfleoedd a manteision adfywio sy'n deillio o ddatblygiadau strategol arfaethedig.**

## Y Broses Astudio

Penodwyd Chris Jones Regeneration i ddatblygu Gweledigaeth ac Uwchgynllun Canol y Dref gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Hyd yn hyn mae'r tîm ymgynghori wedi ymgymryd â'r camau gweithredu canlynol:

- Adolygu gweithgaredd a sylwadau o'r broses a gwybodaeth y Cynllun Creu Lleoedd
- Nifer o ymweliadau â chanol y dref i ddeall sut y caiff ei ddefnyddio, amrywiaeth y siopau a'r gwasanaethau, profiad cerddwyr, traffig a thrafnidiaeth, cysylltiadau â pharciau a llecynnau agored, ymhlith pethau eraill
- Deall sut mae canol y dref yn ymwneud â Phensarn ac ardaloedd cyfagos eraill

Mae'r broses dri mis yn cynnwys nifer o gyfleoedd i'r gymuned a sefydliadau lleol i gymryd rhan.. Rydym wir yn gwerthfawrogi eich syniadau am y cynlluniau ar gyfer canol y dref.

**CAM 1**
Beth yw'r weledigaeth a'r syniadau ar gyfer canol y dref?

→

**CAM 2**
Beth yw'n cynllun a sut ydym am ei gyflwyno?

## What is the Abergele Placemaking Plan?

The APP is a community led plan being prepared to deliver projects and improvements which the residents of Abergele want to see. It provides the catalyst to work with local communities and others involved in the development process in the future and will be supported by a clear Deliverability and Monitoring Plan.

Last summer we had a fantastic response to our consultation, with lots of people commenting through our website, via social media and by calling in to see us when we held events at the library and Tesco.

Since then we've been busy working through the ideas submitted to us and identify what sort of project themes have come across as being most important to residents of Abergele.

Now it's time to start turning the ideas into real projects to be delivered, so we need to look in more detail at what the ideas are and who needs to be involved to make them happen.

## What is the Focus of the Town Centre Study?

Building on comments through the Placemaking Plan process, this study aims to develop a strategic Vision and Masterplan for the town centre, whilst adopting a holistic and strategic approach, linking into other projects such as Pensarn Beachfront, Abergele Library and Community Hub, Shopfront design and improvements and Abergele Town Centre highway options.

Abergele town centre also needs to manage future change, as additional housing and employment is located within the town, with the needs of existing and future residents to be considered.

## Objectives

Study objectives include:

- **Clarifying a vision for achieving a more prosperous and sustainable future for the town centre;**
- **Providing a framework to accommodate change whilst protecting Abergele's local distinctiveness;**
- **Examining and making proposals for improvements to the physical fabric and town, including movement and improvements to green space;**
- **Addressing any negative perceptions and the general vitality and viability of the town centre;**
- **Responding to development opportunities in the town and how these relate to the town centre;**
- **Providing evidence for and assisting with future applications for external funding;**
- **Creating a framework to encourage private sector investments amongst businesses, including their promotion;**
- **Strengthening the fabric and assets of the local community and how to consolidate the town centre;**
- **identifying key projects, opportunities and propose actions over the next 10 years, to act as catalysts for positive change;**
- **Determining how the town centre can capitalise from the opportunities and regeneration benefits derived from proposed strategic developments.**

## Study Process

Chris Jones Regeneration has been appointed by Conwy County Borough Council to develop the Town Centre Vision and Masterplan. The consultant team has undertaken the following actions to date:

- Review of activity and comments from Placemaking Plan process and information
- A number of town centre visits to understand how it is used, range of shops and services, pedestrian experience, traffic and transport, linkages to parks and open space, amongst other items as well as how the town centre relates to Pensarn and to other neighbouring areas

The three month process includes a number of opportunities for the community and local organisations to get involved. We really value your thoughts on the plans for the town centre.

**STAGE 1**
What's the Vision and Ideas for the town centre?

→

**STAGE 2**
What's Our Plan and How Are We Going To Deliver It?

CHRIS JONES REGENERATION

CYNLLUN CREU LLEOEDD ABERGELE PLACEMAKING PLAN

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL


# Eich Sylwadau Chi
# What You've Told Us

## Eich Pryderon a'ch Blaenoriaethau

Ym mis Medi, cafwyd amryw o gyfleoedd i siarad am faterion a blaenoriaethau allweddol, yn benodol:

- Daeth dros 100 o bobl i ddigwyddiad cymunedol deuddydd ar 8 a 9 Medi yn y Ganolfan Ieuenctid a Chymuned
- Cwblhawyd holiadur ar-lein gan 140 o ymatebwyr
- Derbyniwyd negeseuon e-bost, llythyrau a galwadau ffôn hefyd.

Dyma grynodeb o'r hyn a ddywedodd pobl wrthym.




## Your Issues and Priorities

In September, a number of opportunities for talk about key issues and priorities were made possible, specifically:


- Over 100 people attended a two day community event on the 8th and 9th September in the Youth and Community Centre
- An online survey was completed by 140 respondents
- Emails, correspondence and phone calls were also received

This is a summary of what people told us.

### Eich barn chi ar Ganol y Dref ar hyn o bryd




### How You Rate Town Centre Now















### Eich Blaenoriaethau Chi a Dyfodol Canol y Dref




### Your Priorities and the Future of the Town Centre












CHRIS JONES REGENERATION

CYNLLUN CREU LLEOEDD ABERGELE PLACEMAKING PLAN


CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Abergele ar Hyn o Bryd

# Abergele Now

Mae llawer o'r nodweddion tirwedd a wnaeth Abergele'n fan cyfarfod ac yn ganolfan leol yn dal i fod o'i phlaid, a gellir eu defnyddio i atgyfnerthu ei datblygiad yn y dyfodol.

- Mae ar y groesffordd rhwng y bryniau a'r môr, ac mae'n hawdd cyrraedd ati ac yn lleoliad deniadol
- Ni fu erioed mor hawdd cyrraedd ati ar hyd ffyrdd, y rheilffordd a llwybrau beiciau. Mae angen inni sicrhau gwell cysylltiadau o fewn y dref er mwyn meithrin teimlad o gymuned
- Gellir defnyddio'r lleoliad hardd, a phresenoldeb llawer o adeiladau a lleoedd hanesyddol llawn cymeriad fel ffordd o atgyfnerthu teimlad arbennig o le
- Bydd datblygiad newydd yn helpu hybu'r gymuned gwasanaethau lleol os caiff ei integreiddio'n iawn i'r dref ac yn dod yn rhan o'i chymeriad yn hytrach nag atodiad





Many of the landscape characteristic that made Abergele a meeting point and a local hub still act in its favour and can be used to reinforce is future development.

- It is at the crossroads between the hills and the sea, and is easily accessible from both-and attractive setting
- It's accessibility from the outside by road, rail and cycle routes has never been better. We need to ensure that connectivity within the town is improved to foster a sense of a community
- The scenic setting, and the presence of many historic and characterful buildings and places can be used as a way of reinforcing a special sense of place
- New development will help bolster the local community and services if it is properly integrated into the town and becomes part of its character, not an add-on




Adeiladu hunaniaeth leol sy'n apelio at ymwelwyr → Rheoli traffig a symudiad → Cyfleoedd i wella mannau cyhoeddus a busnesau → Cynyddu'r niferoedd yng nghanol y dref a gwella'r profiad cyffredinol ohono → Cefnogi'r busnesau a'r cyfleusterau presennol ac annog datblygiad newydd




Build a local identity that appeals to visitors → Manage traffic and movement → Opportunities to improve public space, business frontages → Increase use, footfall, dwell and overall town centre experience → Support existing businesses and facilities and encourage new investment

CHRIS JONES REGENERATION

CYNLLUN CREU LLEOEDD ABERGELE PLACEMAKING PLAN

CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Cynllun Canol Tref  Abergele Town Centre Plan

## Rheoli Traffig

## Managing Traffic









Mae mynd i'r afael â thraffig yng nghanol y dref – ar hyn o bryd ac yn y dyfodol – wedi cael ei adnabod fel y prif flaenoriaeth i drigolion lleol.

Er mwyn i ganol y dref ddod yn lle mwy bywiog a llewyrchus a chael gwell cysylltiadau, mae angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyflawni asesiad trafnidiaeth ar gyfer y dref gyfan. Mae angen i hyn gynnwys:

- Dealltwriaeth o ymddygiad traffig
  - Mathau o gerbydau
  - Tarddiad a chyrchfan
- Asesiad o'r rhwydwaith priffyrdd:
  - Priffyrdd strategol a lleol
  - Cynhwysedd presennol ac yn y dyfodol
- Dadansoddiad o syniadau/cynigion
  - A fydd addasiadau i'r goleuadau traffig yn cael effaith cadarnhaol
  - Enghreifftiau o ddyluniadau e.e. ail-gyflwyno dwy lôn ar Stryd y Farchnad (i'r dwyrain)
  - A fyddai porth a mesurau tawelu traffig yn newid ymddygiad gyrwyr a thripiau nad ydynt yn hanfodol trwy ganol y dref
- Archwilio cynllun trafnidiaeth ar gyfer safle datblygu'r De Ddwyrain: annog cerdded, sieclo a defnyddio cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus

Byddai dull integredig yn helpu deall cynlluniau hirdymor a hefyd yn adnabod atebion ymarferol tymor byr.

Dealing with current and future traffic in the town centre is identified as the number one priority for local residents.

For the town centre to become more vibrant, prosperous and have better linkages, Conwy County Borough Council needs to undertake a town wide transport assessment.  This needs to include:

- An understanding of traffic behaviour
  - Types of vehicles
  - Origin and destination
- An assessment of the highway network:
  - Strategic and local highways
  - Present and future capacity
- Analysis of ideas/proposals
  - Will adjustments to the traffic lights have a positive benefit
  - Model designs e.g. reintroduce two lanes on Market Street (eastbound)
  - Would gateway and traffic calming features change driver behavior and non-essential trips through the town centre
- Explore transport plan for the South Eastern development site: encourage walking, cycling and use of public transport linkages

An integrated approach would help understand long term plans and also identify short term practical solutions




CHRIS JONES REGENERATION

CYNLLUN CREU LLEOEDD ABERGELE PLACEMAKING PLAN

CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Gweledigaeth ar Gyfer Canol Tref Abergele

# A Vision for Abergele Town Centre




## Perthyn/Belonging





*Darparu cyfleusterau lleol o fewn canol y dref neu'n agos iddo i drigolion y presennol a'r dyfodol*
*Provide local facilities for existing and future residents within or close to the town centre.*




## Bywiogrwydd/Vibrancy





*Creu amgylchedd sy'n annog gweithgarwch, buddsoddiad a hunaniaeth i Abergele*
*Create an environment that stimulates activity, investment and an identity for Abergele*

- Mae angen i NI reoli traffig er mwyn creu amgylchedd o safon sy'n unigryw i Abergele
- Mae angen i NI sicrhau bod Abergele yn gyfleus ac yn apelio at drigolion y presennol a'r dyfodol
- Mae angen i NI ddarparu gwasanaethau lleol o fewn y dref sy'n apelio at yr hen a'r ifanc, rwan ac yn y dyfodol
- Mae angen i NI annog mentro a buddsoddi newydd
- Mae angen i NI fanteisio i'r eithaf ar leoliad Abergele rhwng yr arfordir a'r bryniau a phlethu hyn i'r profiad o ganol y dref
- Mae angen i NI ddathlu ei naws o dreftadaeth, celfyddydau a diwylliant i hybu amrywiaeth a gweithgaredd
- Mae angen i NI ddatblygu partneriaeth ar draws y gymuned i wireddu syniadau bach a mawr ar gyfer canol y dref





- We need to manage traffic in order to create a quality environment that is distinctively Abergele
- We need to ensure Abergele is convenient and appeals to existing and future residents
- We need to provide local services within that appeals to young and old, now and in the future
- We need to encourage new enterprise and investment
- We need to maximise Abergele's location between the coast and hills and build this into town centre experience
- We need to celebrate its sense of heritage, arts and culture to unlock diversity and activity
- We need to develop a cross community partnership to deliver small and big ideas for the town centre




## Cysylltu/Linking




## Llewyrchu/Prospering





*Galluogi cysylltiadau sy'n sicrhau cymuned agos atoch, arloesol a chynaliadwy*
*Enable linkages that ensures a cohesive, innovative and sustainable community*





*Darparu lle ac iddo galon economaidd, cymdeithasol a diwylliannol*
*Provide a place that has an economic, social and cultural heart*

CHRIS JONES REGENERATION

CYNLLUN CREU LLEOEDD ABERGELE PLACEMAKING PLAN

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Cynllun Canol Tref /Abergele Town Centre Plan

## Camau Bach/Small Steps

*"pethau a allai gychwyn yfory"*
*"things that could start tomorrow"*

- Gweithio gyda busnesau i baentio tu blaen siopau a gwneud mân atgyweiriadau
- Agory maes parcio sydd y tu ôl i'r ganolfan gymunedol ieuentid ar benwythnosau
- Creu partneriaeth ar gyfer y dref gyfan i gydgysylltu a chyflawni gwelliannau
- Cyflwyno Ymgyrch "Siopwch, Bwytewch, Prynwch yn Lleol"
- Datblygu brand/hunaniaeth i ganol y dref
- Datblygu, dylunio ac argraffu pecyn perchennog ty newydd ar ganol tref Abergele
- Datblygu digwyddiadau profi/cychwyn busnesau: marchnadoedd awyr agored, siopau dros dro mewn adeiladau gwag
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo ar y we, archwilio ymarferoldeb cerdyn "lleol" i Abergele
- Trefnu gwyl gerdded gymunedol – "Cylch Gele" – yr arfordir a'r bryniau
- Meddwl am ddigwyddiad cymunedol i Barc Pentre Mawr ee sinema wedi'i phweru â beic
- Archwilio cynllun plannu cymunedol – cychwyn ar raddfa fach, cylchfannau/ blychau ffenestri
- Defnyddio Amffitheatr Parc Gele ar gyfer dramâu bach ac adrodd straeon, llwybr celf
- Cymryd rhan yn y Sadwrn Busnesau Bach – 3 Rhagfyr















- Work with businesses to paint shop fronts and make minor repairs
- Make car park to rear of youth community centre open at weekends
- Creating a town wide partnership to co-ordinate and deliver improvements
- Roll out a "Shop/Eat/Buy Local" Campaign
- Develop a town centre brand/identity
- Develop, design and print a new homeowner pack on Abergele town centre
- Develop tester/starter business events: outdoor markets, pop ups in vacant buildings
- Use social media and web promotion, explore feasibility of an Abergele "local" card
- Organise a community walking festival – "The Gele Ring" – coast and hills
- Think about a new community event for Pentre Mawr Park e.g. cycled powered cinema
- Explore community planting scheme – start small, roundabouts/window boxes…
- Use Gele Park Amphitheatre for small plays and storytelling , arts trail
- Engage in Small Business Saturday – 3rd December

CHRISJONES REGENERATION

CYNLLUN CREU LLEOEDD ABERGELE PLACEMAKING PLAN

CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL


# Cynllun Canol Tref/ Abergele Town Centre Plan

## Y Syniadau Mawr/Big Ideas

*"pethau sydd angen cynllunio ar eu cyfer"*
*"things that need planning"*

**Eraill**
K. Parc Pentre Mawr
L. Gwelliannau cyffredinol i'r strydlun
M. Pensarn

**Others**
K. Pentre Mawr Park
L. General Streetscene Improvements
M. Pensarn



J. Y ffordd o Gastell Gwrych — J. Gwrych Castle Approach

I. Porth Gorllewinol Stryd y Farchnad — I. Market Street Western Gateway

H. Hen Ysgol/Llyfrgell/Maes Parcio — H. Old School/Library/Car Park

G. Gwesty/Stablau/Tu blaen y Bee — G. Bee Hotel/Stable Block/Frontage

F. Canol Stryd y Farchnad — F. Central Market Street

E. Cyffordd Stryd y Dwr — E. Water Street Junction

D. Parc Gele — D. Gele Park

C. Gwella Stryd y Bont — C. Bridge Street Enhancement

B. Gwelliannau Ffordd Rhuddlan — B. Rhuddlan Road Improvements

A. Safle Datblygu'r De Ddwyrain — A. South East Development Site

*Edrychwch ar ein Cynllun Gweithredu i Wybod Mwy*
*Please View Our Action Plan To Find Out More*

CHRIS JONES REGENERATION

CYNLLUN CREU LLEOEDD ABERGELE PLACEMAKING PLAN

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Adborth a'r Camau Nesaf

## Sut Mae Gwneud Sylwadau?

**Cam 1 – Siaradwch gydag aelod o'r tîm**

**Cam 2 – Rhowch eich barn am y camau a gynigiwn ar gyfer Canol y Dref**

**Cam 3 – Cwblhewch ein arolwg**

Llenwch gopi o'n harolwg neu cwblhewch ar-lein ar
https://www.surveymonkey.co.uk/r/arolwgtrefabergele2
Neu anfonwch sylwadau ar e-bost at chris@chrisjonesregeneration.co.uk

## Beth sy'n digwydd nesaf?

- Byddwn yn adolygu'ch sylwadau ac yn cynnwys y rhain mewn Cynllun Gweithredu drafft ar gyfer Canol y Dref
- Bydd y Cynllun Gweithredu Terfynol yn cynnwys:
  - Cynllun Lleoedd Abergele - proses
  - Iechyd presennol canol y dref
  - Beth mae pobl wedi'i ddweud – canlyniadau'r ymgynghoriad
  - Gweledigaeth ac Amcanion
  - Cynllun Gweithredu
  - Amcangyfrif costau a chyllid
  - Cyflawni a ffyrdd o weithio
  - Mesur llwyddiant
- Caiff cynllun gweithredu drafft canol y dref ei gyflwyno i Fwrdd Rhaglen Cynllun Lleoedd Abergele ym mis Tachwedd
- Unwaith y caiff y Cynllun Gweithredu ei dderbyn bydd Bwrdd y Rhaglen yn datblygu grwpiau prosiect i weithredu cynigion

## Cymryd Rhan




- Os oes arnoch eisiau cymryd rhan neu gadw mewn cysylltiad, gadewch eich cyfeiriad e-bost neu fanylion cyswllt a bydd Bwrdd Rhaglen y Cynllun Lleoedd yn cysylltu â chi

**DIOLCH AM EICH DIDDORDEB**

# Feedback & Next Steps

## How Can You Make Comments?

**Step 1 - Speak to a member of the team**

**Step 2 – Rate Our Proposed Actions for the Town Centre**

**Step 3 – Complete Our Survey**

Fill in a copy of our survey or complete online at
https://www.surveymonkey.co.uk/r/abergeletownsurvey2
Or email us with comments to chris@chrisjonesregeneration.co.uk

## What Happens Next?

- We will review your comments and build these into a draft Town Centre Action Plan
- The final Action Plan will cover:
  - Abergele Place Plan - process
  - Current health of the town centre
  - What people have told us – results of consultation
  - Vision and Objectives
  - Action Plan
  - Indicative costs and funding
  - Delivery and ways of working
  - Measuring success
- The draft town centre action plan will be presented to the Abergele Place Plan Programme Board in November
- Once the Action Plan has been signed off the Programme Board will develop project groups to take proposals forward

## Getting Involved




- If you want to get involved or keep in touch, please leave us your email address or contact details and the Place Plan Programme Board will contact you

**THANK FOR YOUR INTEREST**

CHRIS JONES REGENERATION
CYNLLUN CREU LLEOEDD ABERGELE PLACEMAKING PLAN
CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL